

CYMERWCH OFAL RHAG TÂN



Wyddech chi...?

- Rydych ddwywaith yn fwy tebygol o farw mewn tân os nad oes gennych larwm mwg sy'n gweithio.
- Mae 90 o bobl yn marw bob blwyddyn oherwydd nad yw eu larwm mwg yn gweithio.
- Achosir dros hanner yr holl danau mewn cartrefi gan ddamweiniau wrth goginio.
- Mae mwy na phump o danau yn dechrau bob dydd oherwydd canhwyllau.
- Bydd rhywun yn marw bob tri diwrnod oherwydd tân a achosir gan sigarét.
- Mae namau trydanol (offer, gwifrau a gorddefnyddio socedau) yn achosi dros 7,000 o danau mewn cartrefi ledled y wlad bob blwyddyn.

MAE'R DAFLLEN HON YN DISGRIFIO MESURAU ATAL TÂN MEGIS:-

- 1. Profi a chynnal a chadw eich larymau mwg**
- 2. Cynllunio sut i ddianc yn achos tân**
- 3. Cynllunio sut i ddianc os ydych yn byw mewn bloc o fflatiau sydd ag ardaloedd cymunol**
- 4. Cyngor ar beth i'w wneud os bydd tân yn eich cartref**
- 5. Cyngor os yw eich llwybrau dianc ar gau**
- 6. Cyngor os oes gennych anawsterau gyda'ch clyw, eich symudedd neu'ch golwg**
- 7. Cyngor os fydd dillad rhywun yn mynd ar dân**
- 8. Sut i goginio'n ddiogel**
- 9. Cyngor os ydych yn ysmegu yn eich cartref**
- 10. Sut i ofalu am eich offer trydanol a nwy.**
- 11. Defnyddio Canhwyllau yn y Cartref.**

1. Profi a chynnal a chadw eich larymau mwg



Noder y caiff eich larwm mwg ei brofi gan y Cyngor ar yr un pryd y caiff eich boeler ei brofi.

Dylech lanhau'r llwch o'ch larwm mwg ddwywaith y flwyddyn gan ddefnyddio'r hwfer.

Test it

Argymhellwn eich bod yn profi eich synwryddion mwg bob wythnos drwy bwysu'r botwm prawf.

Wrth bwysu'r botwm prawf, bydd y larwm yn seinio am gyfnod byr, mae hyn yn golygu ei fod yn gweithio'n iawn. Os na fydd y larwm yn seinio wrth i chi ei brofi, ffoniwch ni ar 02920 872088.

Os yw eich synwryddion mwg yn bipian pan na fydd mwg yn bresennol, mae hyn yn gol-ygu bod angen newid y batri.

2. Cynllunio sut i ddianc yn achos tân



Sicrhewch fod pawb yn yr eiddo yn gwybod beth i'w wneud yn achos tân a sut i ddianc yn ddiogel.

Cynlluniwch eich llwybr dianc gyda'ch gilydd. Sicrhewch fod plant, yr henoed a phobl anabl yn gwybod beth i'w wneud mewn achos tân.

Dylech ystyried ail lwybr dianc, rhag ofn bod y cyntaf ar gau.

Cadwch yr allanfeydd yn glir drwy'r amser!



Sicrhewch fod allweddi drysau a ffenestri wrth law, a sicrhewch fod pawb yn gwybod lle y'u cedwir.

Mae ffenestri allanfeydd tân nad oes dolenni clodwy arnynt mewn rhai ystafelloedd gwely a phennau grisiau, a gosodwyd sticeri arnynt er mwyn nodi eu bod yn ffenestri allanfeydd tân.

Os nad oes gennych allweddi ar gyfer eich drysau neu'ch ffenestri, cysylltwch â ni ar 02920 872088.



Gyda'r nos, caewch yr holl ddrysau a sicrhewch nad oes unrhyw beryglon a allai achosi tân cyn i chi fynd i'r gwely. Gallwch ddiogelu eich llwybrau dianc rhag mwg a tân drwy wneud hyn.

3. Cynllunio sut i ddianc os ydych yn byw mewn bloc o fflatiau ag ardaloedd cymunol



Wrth gynllunio sut i ddianc, sicrhewch eich bod yn osgoi gorfod defnyddio lifftiau fel rhan o'ch cynllun dianc.

Peidiwch byth a rhoi plocyn i ddal drws ar agor yn yr ardal gymunol nac amharu â'u peirianwaith agor a chau, drysau tân ydynt.

Cynlluniwch sut y byddech yn mynd allan o'ch fflat eich hun ac yn dianc o'ch llawr.

Os nad oes unrhyw ddewis arall amdani heblaw am aros yn y fan a'r lle os yw'r tân yn eich atal rhag mynd allan, dewiswch ystafell ddiogel, yn ddelfrydol un gyda ffôn a ffenestr sy'n agor.

Sicrhewch fod y llwybrau dianc yn glir drwy'r amser – sicrhewch nad oes unrhyw flychau, sbwriel, dodrefn, beiciau, sgwteri symudedd ac ati nac unrhyw beth sy'n llosgi'n hawdd yn y coridorau nac ar y grisiau nac yn rhwystro'r llwybr dianc mewn unrhyw ffordd (mae hyn yn cynnwys bagiau ailgylchu y dylid eu gadael yn y man casglu penodol). Sicrhewch nad yw'r drysau i'r grisiau a'r diangfeydd tân wedi'u cloi. Sicrhewch eich bod yn gallu agor y drysau hyn o'r ddwy ochr yn rheolaidd.

Rhowch wybod am unrhyw ddrysau nad ydynt yn gweithio'n gywir – ffoniwch y **Llinell Atgyweiriadau 02920 872088**.

4. Cyngor ar beth i'w wneud os bydd tân yn eich cartref:



Caewch ddrws yr ystafell y mae'r tân ynddi.

Os yw dolen y drws yn oer agorwch y drws yn ofalus, ac yna ewch ar hyd y llwybr dianc a ddewiswyd gennych drwy gropian o dan unrhyw fwg.

Ffoniwch y Gwasanaeth Tân drwy ffonio 999. **D.S. Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch o ran sut y dechreuodd y tân, union leoliad y tân a'ch lleoliad chi mewn perthynas â'r tân.**

Cysylltwch â'ch Swyddog Tenantiaeth cyn gynted â phosibl.

5. Cyngor os yw eich llwybrau dianc ar gau:



Os yw'r tân yn eich fflat, symudwch bawb i mewn i ystafell sydd â ffôn a ffenestr sy'n agor.

Os ydych ar y llawr daear neu'r llawr cyntaf, dylech ddianc drwy'r ffenestr.

Defnyddiwch ddeunydd gwely i gael rhywbeth meddal i'w lanio arno, a gollyngwch eich hun i lawr – peidiwch â neidio.



Os nad ydych yn gallu agor y ffenestr, torrwyd y gwydr yn y gornel isaf. Defnyddiwch dywel neu flanced i orchuddio ymylau miniog.

Os yw rhywun yn methu â dianc o lifft a'ch bod yn pwysu'r botwm larwm, bydd hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cwmni lifftiau, a gallwch gael sgwrs ddwy ffordd â nhw gan ddefnyddio'r intercom yn y lifft.

Ffoniwch 999 cyn gynted â phosibl. Defnyddiwch ffôn symudol neu ffôn cymydog. **Os oes larwm tân yn yr adeilad, torrwyd y gwydr arno er mwyn ei seinio.**

6. Cyngor os oes gennych anawsterau gyda'ch clyw, eich symudedd neu'ch golwg



Os ydych yn fyddar, yn drwm eich clyw neu'n dueddol o gysgu'n drwm, dylech ystyried gosod system larwm sy'n cynnwys golau sy'n fflachio a phad sy'n dirgrynu a fyddai'n eich deffro ar unwaith.



Os ydych yn cael trafferthion o ran symudedd, mae angen ffordd o alw am help yn gyflym arnoch. Dylech ystyried gosod seinydd, system intercom neu ffôn sy'n cynnwys system deialu allan awtomatig sy'n galw am help os fydd eich larwm mwg yn seinio.

Os oes nam ar eich golwg, gallai gosod sticer lliw ar eich larwm eich helpu i'w weld. Mae'r rhan fwyaf o danau yn y cartref yn digwydd yn y nos, felly sicrhewch fod eich larwm wedi'i osod mewn man lle y bydd yn eich deffro, megis yn eich ystafell wely. Dylech gofrestru â'ch Gwasanaeth Tân ac Achub lleol fel y gall y dynion tân eich helpu mewn argyfwng. Os nad ydych yn gallu gosod y larwm eich hun, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân ac Achub lleol a fydd yn gallu eich helpu i'w osod.

7. Cyngor os fydd dillad rhywun yn mynd ar dân

Rhowch y person ar y llawr, lapiwch nhw mewn carthen neu len er mwyn diffodd y fflamau a ffon-iwch ambiwlans.



Peidiwch â mynd yn ôl i mewn i'r adeilad nes bydd y Gwasanaeth Tân yn dweud y cewch wneud hynny.

8. Sut i goginio'n ddiogel



Keep pan handles out of children's reach

Peidiwch â gadael padell sglodion yn coginio heb ei gwyllo – ddiffoddwch y gwres os oes rhaid i chi adael y gegin. Peidiwch byth â llenwi mwy nag un rhan o dri o'ch padell ffrio ag olew, a sychwch y bwyd cyn i chi ei ffrio. Os yw mwg yn dechrau codi o'r olew, diffoddwch y gwres a gadewch i'r badell oeri.

Peidiwch â defnyddio matsis na thaniwr sigarêts i gynnu cwcerau nwy (oni bai bod angen teclyn tanio penodol arnynt)

Cadwch y ffwrn, y tostiwr, y pentan a'r gril yn lân. Gall braster, briwsion a saim gweddilliol fynd ar dân.



Sicrhewch fod dolenni sosbenni allan o'r ffordd.

Cadwch wifrau trydanol, tywelion a llieiniau i ffwrdd o'r cwcer.

Sicrhewch fod popeth wedi'i ddiffodd pan fyddwch wedi gorffen coginio.

Os ydych yn cael barbiciw, cadwch y barbiciw i ffwrdd o adeiladau, cytiau, ffensys, coed a llwyni, a gosodwch y barbiciw ar arwyneb gwastad megis patio.

Sicrhewch fod dŵr, tywod neu bibell ddŵr gerllaw rhag ofn y bydd damweiniau. Peidiwch byth â defnyddio petrol, paraffin nac unrhyw hylifau llosgadwy eraill i gynnu nac ailgynnu eich barbiciw.

Os yw padell sglodion yn mynd ar dân – diffoddwch y gwres a gorchuddiwch y badell gyda gorchudd, lliain wlyb neu flanced dân.

PEIDIWCH BYTH Â CHODI'R BADELL NA THYWALLT DŴR DROSTI.

9. Cyngor os ydych yn ysmegu yn eich cartref



Sicrhewch eich bod wedi diffodd eich sigarêts a'ch matsis yn llwyr cyn gadael y tŷ neu cyn mynd i'r gwely.

Peidiwch â gwacáu blychau llwch i mewn i finiau; gosodwch nhw mewn cynhwysydd metel a rhowch nhw yn yr awyr agored os yw'n bosibl.


Peidiwch byth ag ysmegu yn y gwely.

Cofiwch gadw matsis a thanwyr sigarêts o afael plant.

Mae ysmegu yn yr ardaloedd cymunol yn anghyfreithlon!

10. Sut i ofalu am eich offer trydan a nwy.


Trydan



Mae plygiau a socedi poeth, ffiwsys sy'n llosgi heb reswm, goleuadau sy'n fflachio ac olion llosgi ar socedi neu blygiau oll yn arwyddion o berygl.

Gwnewch yn siŵr fod yr holl blygiau wedi'u weirio'n gywir ac yn ddiogel ac nad oes unrhyw wifrau noeth.

Top tip



Don't overload


Archwiliwch y gwifrau'n rheolaidd – peidiwch byth â defnyddio offer â gwifrau sydd wedi treulio neu wifrau sydd wedi'u difrodi. Peidiwch byth â rhoi gwifrau o dan garpedi na rygiau ychwaith.

Tynnwch blwg y teledu ac offer arall o'r wal cyn mynd i'r gwely.

Peidiwch â gorlwytho socedi drwy ddefnyddio addasydd â lle i sawl plwg arno. Sicrhewch nad yw unrhyw addasydd yn defnyddio mwy na chyfanswm o 13 amp ar gyfer yr offer a bwerir.

Peidiwch â defnyddio mwy na 13 amp!

5 + 5 + 3 = 13
AMP AMP AMP AMP



Using an adaptor with a lead is safer

Byddwch yn ymwybodol o'r terfyn! Bydd terfyn o ran faint o ampiâu y gall gwifren ymestyn neu addasydd eu defnyddio, felly cymerwch ofal nad ydych yn eu gorlwytho er mwyn lleihau'r perygl o dân.

Mae offer gwahanol yn defnyddio gwahanol feintiau o bŵer -

Er enghraifft, gall tegell ddefnyddio plwg 13amp tra gall hwfer ddefnyddio plwg 5amp.

Peidiwch byth â mynd ag offer trydanol i mewn i'r ystafell ymolchi.



Don't dry clothes on or right next to the heater

Peidiwch â chyffwrdd ag offer trydanol â dwylo gwlyb.

Peidiwch â gosod gwresogyddion symudol yn agos i lenni na dodrefn, a pheidiwch byth â'u defnyddio i sychu dillad.

Rhowch wybod i C2C am unrhyw switsys, plygiau a gosodiadau goleuadau sydd wedi torri neu unrhyw wifrau noeth drwy ffonio 02920 872088



Top tip

Store electric blankets flat or rolled up

Storiwch flancedi trydan naill ai'n fflat neu wedi eu rhoio, er mwyn diogelu'r gwifrau y tu mewn iddynt.

Peidiwch â gadael blanced drydan ynghyn dros nos oni bai fod ganddi thermostat.



Peidiwch â defnyddio potel ddŵr poeth gyda blanced drydan.

Nwy



Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar Gyngor Caerdydd i wirio Diogelwch Nwy, i sicrhau fod pibau yn gweithio, a bod offer ffliwiau a ddarperir i denantiaid yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddiogel.

Byddwch yn cael llythyr cyn i rywun ddod i wneud y gwaith hwn.

Os na fydd y dyddiad a gynnigir i chi yn gyfleus, cysylltwch â ni i wneud trefniant arall.

Gall Cyngor Caerdydd gymryd camau cyfreithiol i gael mynediad, os na fydd modd arall i Wirio'r Diogelwch Nwy.

Rhaid hefyd wirio eiddo sydd â dulliau gwresogi cymunedol, er mwyn cadarnhau nad oes cyflenwad nwy newydd wedi ei osod ers y tro diwethaf y profwyd y Nwy.

Rhaid i declynnau nwy gael eu gosod gan berson cymwys, sy'n aelod o'r Gofrestr Gas Safe. Rhaid i denantiaid ofyn am ganiatâd y Cyngor cyn gosod unrhyw declynnau nwy newydd, a rhaid iddynt gytuno y gall y teclynnau gael eu profi fel rhan o gontract gwasanaethu'r Cyngor.

Os oes gennych wresogydd nwy Calor, peidiwch â'i roi mewn cynteddau neu dramwyfeydd. Ni ddylid rhoi gwresogyddion o'r fath yn unrhyw ran o'r ardaloedd cymunedol.

11. Defnyddio Canhwyllau yn y Cartref

Peidiwch â rhoi canhwyllau'n agos at bethau a allai fynd ar dân y hawdd, megis llenni, ffabrigau a chelfi meddal eraill.

NAWR EICH BOD WEDI DARLLEN Y DAFLEN HON DEFNYDDIWCH Y CYNGOR A'R RHESTR DROS Y DUDALEN I ATAL TÂN YN EICH CARTREF NEU UNRHYW UN O'R ARDALOEDD CYMUNEDOL YR YDYCH YN EU RHANNU.

DEFNYDDIWCH Y RHESTR WIRIO I AM- DDIFFYN EICH TEULU AC ACHUB BYWYD- AU:

- Peidiwch â rhoi canhwyllau'n agos at bethau a allai fynd ar dân y hawdd, megis llenni, ffabrigau a chelfi meddal eraill.
- Caewch ddrysau mewnol dros nos i atal tanau rhag lledu.
- Diffoddwch declynnau trydanol a thynnwch y plwg o'r wal – oni chynlluniwyd nhw i gael eu cadw ynghyn – fel y rhewgell.
- Gwnewch yn siŵr fod y cwcer wedi'i ddiffodd.
- Peidiwch â rhoi'r peiriant golchi i weithio dros nos.
- Diffoddwch wresogyddion a defnyddiwch gard tân.
- Diffoddwch ganhwyllau a sigarêts yn iawn.
- Peidiwch â rhoi rhwystrau o flaen allanfeydd.
- Cadwch allweddi drysau a ffenestri mewn man amlwg.

CADWCH YN DDIOGEL RHAG TÂN !!